OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 2731 (Cy. 265)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - -	*23 Hydref 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*25 Hydref 2013*
Yn dod i rym - -	*15 Tachwedd 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 457(4)(b)(ai) a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 15 Tachwedd 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn——

"ystyr "Rheoliadau 2003" ("*the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003(**3**).".

Diwygio

2. Yn rheoliad 2 o Reoliadau 2003 (dehongli) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "credyd cynhwysol" ("universal credit") yw credyd cynhwysol o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**4**);".

3. Ar ôl rheoliad 5 o Reoliadau 2003 mewnosoder—

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd is-adran (4)(b)(ai) o adran 457 gan Ddeddf Diwygio Lles 2012, adran 31, Atodlen 2, paragraffau 37, 38. Fe'i dygwyd i rym ar 29 Ebrill 2013: gweler O.S. 2013/983, erthygl 3(1)(b)(i). Yn rhinwedd adran 569 o Ddeddf Addysg 1996, ystyr "prescribed" yn adran 457 yw wedi ei ragnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2003/860 (Cy.107) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/706 (Cy.109).

(**4**) 2012 p.5.

"**Amgylchiadau rhagnodedig: cael credyd cynhwysol**

6. Yr amgylchiadau sydd wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 457(4)(b)(ai) o Ddeddf 1996(**5**) yw bod rhiant y disgybl yn cael credyd cynhwysol ar neu ar ôl 15 Tachwedd 2013."

Huw Lewis
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o
Weinidogion Cymru

23 Hydref 2013

(**5**) Ystyr "pupil" yn adran 457 yw'r person y penderfynir ar ei gymhwystra i beidio â chodi tâl arno.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003 er mwyn ychwanegu budd-dal neu lwfans ychwanegol sy'n rhoi'r hawl i blentyn hawlydd hawlio prydau bwyd a llety am ddim ar daith breswyl.

Mae cael Credyd Cynhwysol ar neu ar ôl 15 Tachwedd 2013 wedi ei ragnodi at ddibenion adran 457 o Ddeddf Addysg 1996.